

# GRŴP ARBENIGOL AR ANGHENION CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMRU

## COFNODION CYFARFOD 26 MEDI 2018

### Aelodau

|                                       |   |
|---------------------------------------|---|
| Alun Davies AC                        | Ysgrifennydd y Cabinet dros Wasanaethau<br>Cyhoeddus a Llywodraeth Leol |
| Darren Millar AC                      | Aelod o'r Ceidwadwyr Cymreig  |
| Cyrnol Lance Patterson                | Brigâd 160 y Troedfilwyr a Phencadlys Cymru                             |
| Comodor yr Awyrlu Adrian Williams RAF |   |
| Annabel Ingram                        | Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin  |
| Dani Robertson                        | Ffederasiwn Teuluoedd yr RAF  |
| Jane Williams                         | Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges   |
| Ant Metcalfe                          | Y Lleng Brydeinig Frenhinol   |
| Col Nick Beard                        | Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid<br>(RFCA)                     |
| Mike Bailey                           | Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr  |
| Naomi Alleyne                         | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru                                       |
| Huw Thomas                            | Adran Gwaith a Phensiynau   |
| Caroline Wood                         | COBSEO  |
| David Mogilner                        | Y Weinyddiaeth Amddiffyn  |
| Amber Chalonner                       | GIG Cymru i Gyn-filwyr  |
| Julie Lowe                            | Cymdeithas Teuluoedd Milwyr, Morwyr ac<br>Awyrenwyr (SSAFA)             |
| Fiona Jenkins                         | Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro                                     |
| Millie Taylor                         | SSCE Cymru  |
| Geraint Jones                         | Change Step   |
| Jane Greaves                          | Prifysgol Northumbria   |
| Dr Michael Rodriguez                  | Prifysgol Northumbria   |
| Reg Kilpatrick                        | Llywodraeth Cymru – Cyfarwyddwr<br>Llywodraeth Leol                     |
| Jan Jones                             | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol                                 |
| Cerys Gage                            | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol                                 |
| Peter Evans                           | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol                                 |
| Jess Lacey                            | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol                                 |
| Julia Letton                          | Llywodraeth Cymru – Iechyd a Gwasanaethau<br>Cymdeithasol               |
| Tania Nicholson                       | Llywodraeth Cymru – Addysg  |
| Emma Williams                         | Llywodraeth Cymru - Tai   |

### Ymddiheuriadau

|                |                          |
|----------------|--------------------------|
| Neil Kitchiner | GIG Cymru i Gyn-filwyr   |
| Jenna Clare    | Y Weinyddiaeth Amddiffyn |

## **EITEM 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU**

- 1.1 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet yr aelodau i'w ail gyfarfod o Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog. Estynnwyd croeso arbennig i'r aelodau newydd, Peter Evans a Jess Lacey, ac i Darren Millar a wahoddwyd i arsylwi.

## **EITEM 2 – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF A GYNHALIWDYD AR 7 CHWEFROR 2018**

- 2.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## **EITEM 3 – ADRODDIAD CYNNYDD AR Y CAMAU A GYMERWYD YN DILYN CYFARFODYDD BLAENOROL**

- 3.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod llawer o'r camau gweithredu blaenorol wedi'u cwblhau neu wrthi'n cael eu cwblhau.
- 3.2 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod y cam ynghylch y ddarpariaeth ddeintyddiaeth eto i'w gyflawni a gofynnodd am gael datrys y mater. Cytunodd Fiona Jenkins i fwrw ymlaen â hyn. Dywedodd Comodor yr Awyrlu Adrian Williams y byddai'n rhyngweithio pe bai angen.
- 3.3 Gofynnodd Darren Millar AC am fwy o bwyslais ar broblem gamblo ymysg cyn-filwyr. Cytunodd Jan Jones i godi'r mater gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n arwain Grŵp Trawsbleidiol y Llywodraeth ar Gamblo a siarad â Phrifysgol Abertawe a gynhaliodd adroddiad ar gamblo ymhlith cyn-filwyr yn ddiweddar.

### **Camau gweithredu:**

- **Fiona Jenkins i fwrw ymlaen â mater darpariaeth deintyddiaeth yn RAF y Fali**
- **Jan i siarad ag arweinwyr Grŵp Trawsbleidiol y Llywodraeth ar Gamblo er mwyn pwysleisio diddordeb y Grŵp Arbenigol yn y broblem gamblo ymhlith cyn-filwyr a hefyd i siarad â Phrifysgol Abertawe a luniodd adroddiad ar y mater yn ddiweddar.**

## **EITEM 4 – Y CYNNYDD HYD YMA**

- 4.1 Cadarnhaodd Jan Jones fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ddatblygu strategaeth newydd y DU gyfan ar gyfer cyn-filwyr. Bydd Gweinidogion yn derbyn llythyr ganol Hydref i ofyn am sylwadau ar y fersiwn ddrafft gyfredol.
- 4.2 Aeth Jan ymlaen i ddweud y bydd Adroddiad Blynyddol Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cael ei gyhoeddi fis Tachwedd, yna Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru tua diwedd Ionawr-dechrau Chwefror.

- 4.3 Roedd ymarfer cwmpasu ar waith i nodi bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau i gyn-filwyr a'u teuluoedd yng Nghymru. Dywedodd Peter Evans y byddai'n ymweld â sefydliadau partner fel rhan o'r broses hon, i gasglu gwybodaeth am y ddarpariaeth gwasanaethau gyfredol. Anfonwyd arolwg drafft at yr holl aelodau er mwyn casglu eu sylwadau erbyn 1 Hydref.
- 4.4 Rhoddodd Jan y wybodaeth ddiweddaraf am y Llwybr Cyflogaeth a'r Pecyn Cymorth newydd, gan gadarnhau y bydd y ddwy ddogfen yn cael eu lansio gan Ysgrifennydd y Cabinet adeg Sul y Cofio.
- 4.5 Dywedodd Darren Millar AC fod mater cyflogaeth wedi codi yn ystod ei gyfarfod yntau o Grŵp Trawsbleidiol y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid. Roedd wedi cyfarfod gyda'r Grŵp Rhanbarthol Ymgysylltu â Chyflogwyr i drafod sut i ddenu diddordeb y Lluoedd wrth gefn. Bydd Diwrnod Milwyr Wrth Gefn yn cael ei gynnal ar 27 Mehefin 2019, ac awgrymodd Darren Millar AC y gallai Llywodraeth Cymru gynnal digwyddiad yn y Senedd ar 26 Mehefin i hyrwyddo cyflogaeth milwyr wrth gefn.
- 4.6 Soniodd Reg Kilpatrick am y llwyth gwaith a gynhaliwyd ers cyfarfod diwetha'r Grŵp Arbenigol ym mis Chwefror; cyfran helaeth ohono yn waith ar y cyd, ac sy'n esiampl gwerth chweil.

#### **Cam gweithredu:**

- **Jan i sgwrsio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno digwyddiad yn y Senedd ar 26 Mehefin i hyrwyddo cyflogaeth milwyr wrth gefn.**

#### **EITEM 5 – DIWEDDARIAD GAN Y WEINYDDIAETH AMDDIFFYN A'R TRI GWASANAETH**

- 5.1 Dechreuodd y Cynol Lance Patteson trwy ddiolch i bawb a fu'n rhan o Ddiwrnod y Lluoedd Arfog eleni, gan nodi bod holl aelodau'r Grŵp Arbenigol wedi cyfrannu at ei lwyddiant.
- 5.2 Nododd Cynol Patterson ei bod hi'n adeg brysur o'r flwyddyn i'r Fyddin. Roedd Bataliwn 1af y Cymry Brenhinol wedi dychwelyd o Estonia, ond mae Gwarchodlu Dragŵn y Frenhines yn parhau i ymroi i adain ddwyreiniol NATO yng Ngwlad Pwyl tra bod Bataliwn 1af y Gwarchodlu Cymreig yn parhau wrth eu gwaith yn Kabul, Afghanistan.
- 5.3 Diolchodd Cynol Patterson i Lywodraeth Cymru am gyllid o £250,000 a ddarparwyd tuag at gefnogi plant milwyr mewn addysg yng Nghymru, gan nodi cyhoeddiad diweddar y Weinyddiaeth Amddiffyn i barhau â'r Gronfa Cymorth Addysg am ddwy flynedd arall ar sail gyfyngedig. Mae £415,000 wedi'i ddyrannu i brosiectau ledled y DU fel rhan o'r Gronfa Cyfamod - £87,000 ohono wedi'i ddyrannu i Gymru, neu 21% o'r dyraniadau, ac sy'n adlewyrchu safon y ceisiadau a gyflwynwyd.

- 5.4 Wrth edrych ymlaen, dywedodd Cynol Patterson y bydd gwasanaeth Cofio'r Cadoediad yn cael ei gynnal yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, digwyddiad a fynychir gan y Prif Weinidog. Hefyd, cynhelir Gwobrau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru ar 22 Tachwedd yn Sain Ffagan, a saliw't gynnal i ddathlu pen-blwydd y Tywysog Charles ar 14 Tachwedd.
- 5.5 Nododd Cynol Patterson ei bod hi'n ymddangos mai ychydig o gynnydd a fu ar fater Sain Tathan, yn nhermau canolfan i droedfilwyr yn y dyfodol a setliad tir terfynol.
- 5.6 Dywedodd Cadlywydd yr Awyrlu Adrian Williams fod dros 60 o ddigwyddiadau ledled yr holl awdurdodau lleol wedi'u cynnal yng Nghymru i goffau RAF 100. Dangosodd y digwyddiadau hyn fod gan lawer o bobl yng Nghymru gysylltiad personol â'r RAF. Byddai digwyddiad dilynol i hyn yn y dyfodol. Dywedodd Comodor yr Awyrlu fod RAF y Fali yn rhan bwysig o'r seilwaith amddiffyn, gyda sgwadronau 1 a 25 bellach wedi ymgartrefu yn RAF y Fali. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ati i longyfarch yr RAF yn dilyn llwyddiant dathliadau'r canmlwyddiant.
- 5.7 Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn er mwyn pennu dyfodol Cymru fel rhan o raglen foderneiddio'r diwydiant amddiffyn. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai hefyd yn cyfarfod â Stuart Andrews AS, y Gweinidog Amddiffyn a Chaffael, yn ystod mis Tachwedd, ac y bydd yn codi'r mater o sefydlu yng Nghymru.
- 5.8 Siaradodd Cynol Patterson am Ddiwrnodau'r Lluoedd Arfog a'r pryderon ynghylch darpariaeth y dyfodol. Awgrymodd Jan y syniad o leihau'r Diwrnodau Lluoedd Arfog ledled Cymru i un yn lle dau, gan gynnal digwyddiadau am yn ail rhwng y Gogledd a'r De. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet am adroddiad ar y mater, yn amlinellu gweledigaeth gytûn ar gyfer y dyfodol a'r goblygiadau o ran adnoddau. Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu rhwng aelodau'r Grŵp er mwyn ei ystyried.
- 5.9 Cyfeiriodd Ant Metcalfe at lwyddiant y Gronfa Gyfamod, gan longyfarch cyfraniad Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog wrth fwrw'r gwaith hwn ymlaen.
- 5.10 Dywedodd Cynol Nick Beard fod y gwaith o adeiladu'r HMS Cambria newydd wedi dechrau ym Mae Caerdydd. Disgwylir iddo fod yn barod erbyn 2019.

#### **Cam gweithredu:**

- **Paratoi adroddiad sy'n amlinellu gweledigaeth y cytunwyd arni ar ddyfodol Diwrnodau'r Lluoedd Arfog, a'r goblygiadau ar adnoddau.**

#### **EITEM 6 – DIWEDDARIAD AR FAP ANGHENION**

- 6.1 Cyflwynodd Jane Greaves y Map Anghenion gan esbonio ei fod yn rhan o'r gwaith ymchwil mwyaf i nodi'r bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth ac yn ddadansoddiad o anghenion cyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae tair ffrwd ymchwil ar waith – caledi ariannol, iechyd meddwl a theuluoedd gwasanaeth. Esboniodd Jane fod gwaith ar droed i gynnwys y cyfeiriadur yng ngwefan y Porth i Gyn-filwyr.
- 6.2 Dywedodd Dr Michael Rodriguez fod data wedi'i gasglu o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol a GIG Cymru i Gyn-filwyr. O ran Cymru, sylwyd bod cyn-filwyr iau yn dueddol o droi at wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr tra bod cyn-filwyr hŷn yn gofyn am gymorth gan fudiad Combat Stress. Un o brif gasgliadau'r adroddiad, meddai Dr Rodriguez, oedd problemau iechyd meddwl mewn ardaloedd difreintiedig.
- 6.3 Holodd Darren Millar AC beth oedd yn cael ei wneud am iechyd meddwl cyn-filwyr sy'n parhau heb eu nodi. Esboniodd Jane fod gwaith ar ofal sylfaenol yn parhau yng ngorllewin Lloegr, lle mae staff yn gofyn i gleifion sy'n cofrestru a oeddent wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Nododd Fiona Jenkins fod ffurflenni cofrestru gofal sylfaenol eisoes wedi'u diweddarau yng Nghymru, sydd felly'n gofyn i gleifion newydd a fuon nhw'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Er hynny, mae angen gwneud gwaith pellach i ddatrys problem cleifion hŷn a gofrestrodd cyn cyhoeddi'r ffurflenni newydd ac y mae eu hanes o wasanaethu yn dal yn anhysbys. Dywedodd Fiona fod y mater o gyflwyno codau gwahanol wrth ryddhau rhywun o'r gwasanaeth milwrol yn achosi dryswch, a gofynnodd i'r Weinyddiaeth Amddiffyn archwilio hyn.
- 6.4 Gofynnodd Ant a oedd modd cysylltu'r data er mwyn cymharu'r amrywiadau gwahanol. Cadarnhaodd Jane fod cytundeb rhannu data ar waith. Nododd Julie Lowe y pwynt fod cyn-filwyr hyn yn ceisio cymorth gan gronfeydd lles/cydfuddiannol a gofynnodd ai rhywbeth penodol i Gymru yw hwn. Dywedodd Fiona fod GIG Cymru i Gyn-filwyr yn wasanaeth seiliedig ar dystiolaeth sy'n gweithio'n agos gyda Combat Stress, ac mae'r canlyniadau'n dangos bod cyn-filwyr hyn yn dueddol o droi at y trydydd sector am gymorth gan fod hynny'n rhywbeth maen nhw'n fwy cyfarwydd ag e. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd archwilio'r broses o ddarparu gwasanaethau sy'n cyfateb i anghenion.

## **EITEM 7 – DIWEDDARIAD AR GYNLLUN PEILOT MENTORA CYMHEIRIAID**

- 7.1 Esboniodd Geraint Jones fod cryn gynnydd wedi bod ers lansio Change Step yn 2013 gan ddweud bod yr elusen wedi gweithio gyda rhai sy'n cael trafferth cymryd rhan ac sydd â diffyg ffydd mewn gwasanaethau prif ffrwd. Yn 2017, gyda chymorth arian peilot gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, aeth Change Step ati i drefnu bod dau fentor cyn-filwyr yn gweithio ochr yn ochr â therapyddion GIG Cymru i Gyn-filwyr, ac felly'n rhoi cymorth parhaus i rai sy'n cael trafferth ymgysylltu ag eraill. Mae dau werthusiad wedi'i gynnal ers hynny, ac roedd y casgliadau'n canmol y ffordd arloesol o weithio, yn enwedig gan fod aelodau'r teulu wedi derbyn cymorth hefyd. Roedd casgliadau'n nodi'r angen am fwy o eglurder wrth gasglu data.

- 7.2 Siaradodd Geraint am astudiaeth ddwy flynedd Gwerth Cymdeithasol Cymru o'r enw 'The social value of the Change Step and Veterans NHS pilot study'. Roedd y canlyniadau'n dangos bod mwy o effaith gymdeithasol diolch i ragor o gymorth i deuluoedd, a bod y newidiadau'n cael eu hystyried yn rhai cadarnhaol.
- 7.3 Pwysleisiodd Geraint ddull cydweithredol Change Step sydd hefyd yn gweithio gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol, sy'n cynnig gwasanaethau mentora cymheiriaid, cronfeydd lles, asesu anghenion cyn-filwyr anodd eu cyrraedd a chefnogi cyn-filwyr oeddrannus. Y gobaith yw seilio'r berthynas â GIG Cymru i Gyn-filwyr yn ffurfiol.
- 7.4 Dywedodd Darren Millar AC y dylid dathlu gwaith Change Step, gan nodi'r her barhaus ynghylch cyllid a chynaliadwyedd. Mae'r model mentora cymheiriaid yn effeithiol ac effeithlon, ond mae'r arian tymor byr yn golygu nad yw'r gwasanaeth wedi'i wreiddio. Ar ben hynny, mae'r cyllid gan Help for Heroes yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2018.
- 7.5 Nododd Ysgrifennydd y Cabinet y pwyntiau a godwyd am bryderon cyllido Change Step yn y dyfodol, ac y byddai'n dychwelyd ato ar y mater hwn.

## **EITEM 8 – DIWEDDARIAD AR SWYDDI SWYDDOGION CYSWLLT Y LLUOEDD ARFOG**

- 8.1 Dechreuodd Ysgrifennydd y Cabinet yr eitem trwy ganmol gwaith Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog yn ei etholaeth a'r cynnydd ar droed.
- 8.2 Dywedodd Naomi Allenyne fod hyfforddiant ar-lein wedi'i gwblhau ac ar gael i'r holl awdurdodau lleol a'r gwasanaethau cyhoeddus i'w ddefnyddio, fel rhan o'r prosiect cenedlaethol. Roedd pecyn cymorth wedi'i ddatblygu i werthuso'r cynnydd. Er bod ceisiadau Awdurdod Lleol yn wahanol, gan adlewyrchu'r ffyrdd rhanbarthol o weithio, cadarnhaodd Naomi fod y blaenoriaethau'n dal i gynnwys codi ymwybyddiaeth, cyflwyno polisi ac ymgysylltu'n well. Gofynnodd Julie beth oedd yn digwydd gyda Phowys, sef yr unig awdurdod lleol i beidio bod yn rhan o gais am arian Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog. Cadarnhaodd Naomi fod Powys yn dal i allu elwa ar yr adnoddau cenedlaethol sydd ar waith. Holodd Ant am y ffaith nad yw'r elfen hyfforddiant yn orfodol ar hyn o bryd, ac y byddai'n codi'r mater yng nghyfarfod nesaf Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog.
- 8.3 Cadarnhaodd Naomi y bydd cyfarfod nesaf Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog yn cael ei gynnal ar 14 Tachwedd. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn bresennol.
- 8.4 Ategodd Ysgrifennydd y Cabinet ei diddordeb yn rolau Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog yn y dyfodol, gan sicrhau bod swyddi'n cael eu had-drefnu a bod Powys wedi'i chynnwys.

## **EITEM 9 – Y STRATEGAETH AR GYFER EIN CYN-FILWYR**

- 9.1 Cyflwynodd David Mogilner y Strategaeth ar gyfer ein Cyn-filwyr, cynnig y cytunwyd arno gan Fwrdd Gweinidogol Cyfamod a Chyn-filwyr ym mis Ebrill 2018. Esboniodd David y byddai dwy ddogfen yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd - Strategaeth a fydd yn cynnwys gweledigaeth ac egwyddorion strategol a dogfen ymgynghori 12 wythnos. Nodwyd y byddai'r ymgynghoriad yn cynnwys diffiniad o'r gair 'cyn-filwyr'. Bydd y Strategaeth yn cynnwys ffactorau trawsbynciol wedi'u hanelu at lywio gwelliannau, ac yn seiliedig ar chwe thema. Bydd y Strategaeth yn canolbwyntio ar gyn-filwyr y DU i ddechrau, cyn targedu cyn-filwyr tramor yn y dyfodol.
- 9.2 Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at y ffaith fod angen gwahaniaethu rhwng darparu gwasanaethau rhwng llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, ac egluro'r amserlenni ac uchelgeisiau.

## **EITEM 10 – CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU**

- 10.1 Dywedodd Millie Taylor fod prosiect Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru (SSCE) ar waith ers pum mlynedd, a bod cryn dipyn o adnoddau, fel straeon digidol a phecynnau cymorth, bellach ar waith. Mae SSCE yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at adolygiad o'r cod derbyniadau ysgolion, er mwyn nodi sut y gellir cynnwys plant milwyr yn y cod newydd. Nodwyd bod astudiaeth data ddiweddar wedi gweld bod plant milwyr ym mhob un o 22 awdurdod lleol Cymru. Soniodd Millie am Gronfa Cymorth i Blant y Lluoedd Arfog Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd 41 o geisiadau ledled Cymru a llwyddodd 27 i gael naill ai cyllid rhannol neu lawn. Ers hynny, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi ehangu ei Chyllid Cymorth Addysg ar sail gyfyngedig, £3 miliwn ar gyfer 2018-19 a £2 filiwn ar gyfer 2019-20.

## **EITEM 11 – Y PORTH I GYN-FILWYR**

- 11.1 Rhoddodd Ant ddiweddariad am wefan y Porth i Gyn-filwyr a ddathlodd ei phen-blwydd cyntaf ym mis Gorffennaf 2018. Ers ei lansio, cadarnhaodd Ant fod elusennau llai bellach yn gysylltiedig â'r Porth. Esboniodd Ant mai materion cyllid, iechyd a thai yw'r anghenion mwyaf sydd wedi codi ers ei lansio, ac mai cyn-filwyr ifanc sy'n ymgysylltu fwyaf â'r gwasanaeth. Nodwyd bod 50% o'r rhai sy'n ymateb i alwadau yn y ganolfan gyswllt yn Nantgarw naill ai'n gyn-filwyr eu hunain neu'n perthyn i gyn-filwyr.

## **EITEM 12 – UNRHYW FATER ARALL**

- 12.1 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r aelodau am eu cyfraniad, gan nodi iddo fod yn gyfarfod defnyddiol. Diolchodd hefyd ar ran y Grŵp i'r Cynol Lance Patterson a fydd yn gadael Brigâd 160 yn fuan i ymuno â'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

- 12.2 Nododd Fiona fod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi ennill y fedal aur yn ddiweddar mewn gwobrau Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn.
- 12.3 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Mawrth, 11.00 – 12.30pm. Lleoliad i'w gadarnhau yn nes at yr amser.